# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Bryn yr Eglwys**

**Pentrefoelas**
**Betws-y-coed**
**LL24 0HY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Bryn yr Eglwys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | NANT-Y-FOEL CYFYNGEDIG |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28/11/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Yr Unigolyn Cyfrifol, sef y rheolwr cofrestredig hefyd, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth. Caiff y staff eu recriwtio mewn modd sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Mae hyfforddiant ar gael i'r staff ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n eu trin ag urddas a pharch. Mae cyfleoedd rheolaidd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgaredd unigol a gweithgareddau grŵp, ac mae gan y bobl bethau i edrych ymlaen atynt. Caiff dewisiadau iaith y bobl eu hystyried a'u parchu.

Mae'r gofal yn cael ei ddarparu gan dîm o staff brwdfrydig a chyfarwydd sydd am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu'r person sy'n cael gofal. Mae cymorth amserol ar gael i'r bobl gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Caiff hanes bywyd y bobl ei archwilio a'i werthfawrogi gan y staff.

Mae gwaith adnewyddu a fu'n mynd rhagddo fwy neu lai wedi'i gwblhau, ac mae'r cartref yn cynnig cyfleusterau cyfforddus, golau a modern i'r bobl sy'n byw yma. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal heintiau a mesurau iechyd a diogelwch da ar waith.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd a chânt eu hannog gan y staff gofal i wneud dewisiadau ac i barhau mor annibynnol â phosibl. Mae cyfleoedd i'r bobl gael eu hysgogi a chadw'n brysur, neu mae ganddynt bethau i edrych ymlaen atynt. Caiff y bobl wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bwydlen sy'n cynnig dewis i'r bobl ac mae dewisiadau amgen ar gael, caiff prydau bwyd, pwdinau a chacennau eu paratoi'n ffres, gan ddefnyddio cynnyrch lleol. Gall y bobl ddewis a hoffent dreulio eu diwrnodau ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd gwely neu yn un o'r lolfeydd.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd da, ac mae staff gofal hyfforddedig yn gofalu am eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu darparu i sicrhau y gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom y staff gofal yn darparu gofal a chymorth mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae'r staff gofal yn gyfeillgar ac yn groesawgar tuag at y bobl, ac mae awyrgylch cartrefol yn y cartref. Caiff y cynlluniau personol eu datblygu gyda'r unigolyn a'i berthnasau er mwyn i ddyheadau a dewisiadau penodol gael eu nodi'n gywir.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n groesawgar, yn gartrefol ac yn ddiogel. Gwelsom fod yr unigolyn cofrestredig wedi gwneud buddsoddiadau ariannol cadarnhaol i wella'r cartref. Mae'r gwasanaeth yn gynnes, yn lân ac yn gartrefol. Nid oes peryglon baglu yn unrhyw ran o'r cartref, felly gallai'r bobl gerdded o amgylch yn ddiogel. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd a'i gynnal a'i gadw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel. Mae'r ystafelloedd wedi'u personoli ag eitemau personol pob unigolyn, lluniau, ffotograffau ac eitemau eraill y maent yn eu mwynhau.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac maent yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r bobl a'r staff yn gwybod sut i fynegi unrhyw bryderon os byddant yn codi.  Mae'r prosesau recriwtio staff yn gadarn, yn ddiogel ac mae'r holl wiriadau angenrheidiol yn cael eu cynnal cyn cynnig cyflogaeth.  Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r staff gofal yn cael amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r bobl na allant wneud eu penderfyniadau eu hunain mewn perthynas â gofal a ble i fyw yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Mae lefelau staffio diogel ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael cymorth amserol gan y staff gofal.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gallant deimlo'n hyderus bod cynllun cyfredol a chywir ar waith sy'n nodi sut y caiff eu gofal a'u cymorth eu darparu. Caiff amrywiaeth o wybodaeth ei hystyried cyn derbyn unigolion i'r cartref. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn nodi anghenion a dewisiadau unigol. Cynhelir adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau a'r asesiadau risg yn gyfredol ac yn gywir. Mae'r cofnodion dyddiol a'r siartiau monitro yn dangos bod y bobl yn cael y lefel gywir o ofal ar yr adeg briodol. Mae'r staff yn cydgysylltu'n briodol â'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gael cyngor a gwneir atgyfeiriadau amserol at y therapydd galwedigaethol, y deietegydd a'r meddyg teulu. Mae systemau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Caiff iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol y bobl eu hybu. Gall y bobl leisio eu barn ar faterion fel y bwydlenni a'r gweithgareddau a gallant fod yn sicr y bydd y tîm rheoli yn gwneud unrhyw welliannau. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu gan y staff gofal. Mae dau iPod y gellir mynd â nhw at unrhyw breswylydd yn unrhyw ystafell er mwyn i'r bobl allu mwynhau cerddoriaeth ymlaciol, gwylio deunydd newyddion archif, ac edrych ar hen ffotograffau. Gall y bobl eu defnyddio i gymryd rhan mewn gweithgareddau karaoke, bingo, cwisiau a jig-sos hefyd. Dywedodd y dirprwy reolwr eu bod wedi bod yn werthfawr iawn yn ystod y pandemig a'u bod wedi helpu preswylwyr i gyfathrebu â'u teuluoedd a'u hanwyliaid. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys croeseiriau, canu a garddio.

Caiff y bobl eu trin â thosturi a charedigrwydd. Mae'r awyrgylch yn gartrefol, yn hamddenol ac yn ddigyffro. Mae aelodau o staff ym mhob rhan o'r cartref sy'n eu galluogi i ymateb i anghenion a cheisiadau'r bobl yn gyflym. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio caredig a pharchus rhwng y staff a'r bobl roeddent yn eu cefnogi a chlwysom y bobl yn chwerthin ac yn mwynhau sgyrsiau llawn hiwmor â'r staff. Roedd y bobl yn canmol y staff sy'n eu cefnogi, gan nodi hefyd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon na chwynion.

Gall y bobl gael gwasanaeth yn Gymraeg yn y cartref. Clywsom aelodau o'r staff yn sgwrsio â'r bobl a gyda'i gilydd yn Gymraeg.  Mae cylchlythyr misol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan amgylchedd sy'n helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-werth. Mae'r cartref wedi cael ei adnewyddu a'i addurno'n helaeth yn ddiweddar, a dim ond nifer bach iawn o ystafelloedd sydd ar ôl i'w hadnewyddu. Prynwyd dodrefn a lloriau newydd ar gyfer pob rhan o'r cartref. Cwblhawyd estyniad mawr trawiadol â lle i ddeg gwely. Mae gan bob ystafell olygfeydd gwych dros yr ardal cefn gwlad gyfagos, a gall y bobl fwynhau gwylio'r bywyd gwyllt lleol fel yr adar a'r gwiwerod. Mae'r cartref wedi'i addurno mewn lliwiau niwtral, a gall y bobl ddod ag eiddo personol fel eitemau o ddodrefn bach, ffotograffau ac ornamentau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac yn gyfforddus yn eu hystafelloedd ac yn teimlo bod ganddynt breifatrwydd yno. Mae digon o leoedd cyfforddus i eistedd yn yr ystafell fwyta a'r lolfeydd cymunedol ac mae lle hefyd i'r bobl gymdeithasu neu groesawu ymwelwyr. Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y bobl yn gyfforddus, yn eistedd gyda'i gilydd, yn sgwrsio ac yn mwynhau eu prydau bwyd a'u gweithgareddau gyda'i gilydd.

Mae'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i nodi ac ymdrin â'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn dda. Mae'r cartref yn ddiogel, roedd y drws ffrynt wedi'i gloi, ac mae'n rhaid i ymwelwyr lofnodi pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael. Gofynnwyd am gael gweld ein manylion adnabod a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r gweithdrefnau diogelwch tân. Ymhlith y mesurau diogelwch tân eraill sydd ar waith, mae hyfforddiant i'r staff, ymarferion rheolaidd a gwiriadau o'r cyfarpar. Ni nododd arolygiad diweddar gan yr Awdurdod Tân unrhyw bryderon. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau a threfniadau gwasanaethu rheolaidd ar waith ar gyfer gosodiadau trydanol, dyfeisiau nwy a thymheredd y dŵr. Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd arolygiad o'r gwasanaeth ym mis Chwefror 2023 a rhoddwyd sgôr o bump i'r darparwr, sy'n golygu bod y safonau yn y gegin yn dda.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo safon hylendid dda. Mae polisi rheoli heintiau cadarn ar waith ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar Atal a Rheoli Heintiau. Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd ac mae cyflenwad da o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE). Mae'r cartref yn cyflogi staff glanhau ac mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn cael digon o awyr a dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym eu bod yn fodlon ar lefel glendid y cartref. Mae cofnodion yn cadarnhau ei bod hi'n ofynnol i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelwch bwyd a rheoli heintiau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r dirprwy reolwr yn asesu glendid yr amgylchedd, a chaiff unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen eu rhoi ar waith yn brydlon

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau da ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn hwylus. Mae'r Unigolyn Cyfrifol, sef y rheolwr cofrestredig hefyd, wedi'i leoli yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn llunio adroddiadau am berfformiad y cartref ar ôl ei ymweliadau ffurfiol bob tri mis. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n amlinellu ei nodau a'i amcanion ac yn esbonio sut y cânt eu cyflawni. Mae'r systemau i fonitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn cynnwys gofyn i'r bobl sy'n cael cymorth, eu cynrychiolwyr a'r staff gofal am eu safbwyntiau. Roedd y bobl a'r staff yn canmol y tîm rheoli, gan nodi eu bod yn teimlo bod lefel dda o gymorth a bod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn barod i ystyried unrhyw awgrymiadau.

Mae trefniadau da ar waith i recriwtio, hyfforddi a chefnogi'r staff. Mae'r staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant, fel y nodir yn natganiad o ddiben y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu swyddi, eu bod yn cael boddhad o'u gwaith a'u bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau. Dywedodd y staff wrthym eu bod wrth eu bodd yn gweithio yn y cartref, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd. Gwelsom gofnodion hyfforddi a goruchwylio oedd yn cadarnhau'r hyn a ddywedodd y staff wrthym. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod y staff yn cael y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol, gan gynnwys gwiriad troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o dîm da sy'n cynnwys cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda o safbwynt ariannol. Cafodd estyniad newydd ei gwblhau'n ddiweddar ac mae gwaith adnewyddu sylweddol yn mynd rhagddo. Mae digon o gynnyrch bwyd ffres o ansawdd da ac mae digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal y bobl. Dywedodd y bobl a'r staff wrthym fod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt a bod camau yn cael eu cymryd i ymateb i unrhyw geisiadau ganddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/11/2023